PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 2 | Ionawr 11, 2024 | 50c.

## Capel Libanus, y Pwll: Dathlu 90 oed

Yn ystod 2023 bu pedwar o'n haelodau yn dathlu eu pen-blwydd yn 90 oed. Tro John Jones oedd hi ar 21 Rhagfyr a chynhaliwyd te dathlu iddo wedi oedfa'r Nadolig. Cyflwynwyd anrheg oddi wrth yr aelodau fel arwydd o'n gwerthfawrogiad am ei gyfraniad i'r achos dros y blynyddoedd. Bu'n drysorydd cydwybodol am nifer fawr o flynyddoedd yn ogystal â gofalu am fanc yr ysgol Sul gyda'i wraig Jean. Iechyd da iddo yn 2024.

Diolch i Gwenda Davies ac Anne Hussey am addurno'r capel a'r festri ac am baratoi'r lluniaeth ysgafn. Bore hyfryd iawn.



*Te parti John Jones*

### Gwasanaeth y Nadolig

Cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu'r Nadolig fore Sul, 17 Rhagfyr. Thema'r oedfa a drefnwyd gan Deryth Davies oedd mai genedigaeth yr Iesu oedd anrheg bwysicaf Duw i ddynoliaeth. Roedd yn braf gweld cymaint o'n haelodau yn cymryd rhan a hyfrydwch oedd clywed datganiad cerddorol gan un o'n haelodau hynaf sef John Jones a darlleniadau gan y ddwy ieuengaf, Ffion a Mari Thomas. Derbyniodd y plant a'r bobl ifainc eu hanrheg Nadolig oddi wrth y capel ynghyd â chwdyn o ddanteithion gan gwmni Asda trwy law Mr Lyndon Thomas.

*parhad ar y dudalen gefn*

## EGLWYS ANNIBYNNOL RHYD-Y-MAIN

Ar nos Sul, 16 Gorffennaf 2023, gwnaeth y gynulleidfa a oedd yn bresennol yn yr oedfa yng nghapel Rhyd-y-main y penderfyniad anodd o adael yr ofalaeth weinidogaethol y bu'r eglwys yn rhan ohoni ers deng mlynedd, a hynny oherwydd y sefyllfa ariannol fregus.

Yn dilyn trafodaeth â'r gweinidog, penderfynwyd y byddai hyn yn dod yn weithredol ddiwedd 2023. Felly, nos Sul 17 Rhagfyr, ar derfyn oedfa olaf y Parchedig Iwan Llewelyn Jones yn weinidog ar eglwys Rhyd-y-main, manteisiwyd ar y cyfle i'w anrhegu a diolch yn ddidwyll iddo am ei weinidogaeth ddiffuant yn ystod yr amser y bu'n gweinidogaethu yn yr ardal, gan ddymuno'r gorau iddo ef a gweddill yr ofalaeth i'r dyfodol. Gobaith yr aelodau oedd na fyddai Iwan yn ddieithr i'r pulpud yn Rhyd-y-main ac y cawn ei groesawu i'n plith yn achlysurol.

Nid ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad hwn, ond fel y dengys adroddiadau ariannol diweddar yr achos yn Rhyd-y-main, 'diwedd y gân yw'r geiniog.'

Hyderwn y gallwn barhau i gadw drws y capel yn agored a chynnal y traddodiad anghydffurfiol a ddechreuodd cyn belled yn ôl â 1784.






# MYFYRDOD O'R BEIBL

## Y Beibl a'i bobl: Esther

Esther yw'r cymeriad pwysig nesaf yn ein cyfres o fyfyrdodau ar brif gymeriadau'r Beibl.

Iddewes oedd Esther oedd yn byw yn ninas Babilon pan oedd Ahasferus yn frenin Persia (486–465/4 CC). Ar ôl i rieni Esther farw, cafodd ei magu gan ei chefnder Mordecai a oedd yn swyddog yn llys y brenin.

Mae hanes Esther yn un trawiadol. Ar ôl diswyddo Fasti fel brenhines, roedd y Brenin Ahasferus yn chwilio am ddynes arall i gymryd ei lle. Yn y pendraw, dewisodd Ahasferus Esther fel brenhines gan ei bod hi'n 'dderbyniol yn ei olwg.' (Esther 2:9) Er mai Iddewes oedd hi – nid Persiad ethnig – daeth Esther yn frenhines ar un o ymerodraethau mwyaf pwerus y byd. Er hynny, ni wnaeth Esther ddatguddio wrth neb ei bod hi'n Iddewes: cadwodd ei chenedligrwydd yn gyfrinach pan ddaeth yn frenhines (Esther 2:10).

Yn y cyfamser, mae Haman – prif weinidog Persia – yn gwneud cynllwyn slei i ladd yr Iddewon. Mae'n llwyddo i gael sêl bendith yr awdurdodau ac mae'n anfon llythyrau at holl daleithiau'r ymerodraeth 'yn gorchymyn dinistrio, lladd a difa pob Iddew.' (Esther 3:13)

### Mordecai

Er hynny, mae Mordecai – cefnder Esther – yn clywed am y cynllun trychinebus hwn. Unwaith mae'n clywed am fwriad Haman, mae'n cael ei lenwi â thristwch a galar gan 'wisgo sachliain a lludw, a mynd allan i ganol y ddinas a gweiddi'n groch a chwerw' (Esther 4:1). Mae Esther yn clywed fod Mordecai'n ddigalon felly mae'n anfon gair ato i ofyn beth sy'n bod. Mae Mordecai yn sôn wrthi am gynllun Haman ac mae'n pledio arni 'i fynd at y brenin i ymbil ag ef ac erfyn arno dros ei phobl.' (Esther 4:8)

Gan mai hi yw brenhines Persia, mae ganddi glust y brenin. Mae Esther yn gwrando ar Mordecai ac mae hi'n ymateb trwy gael gair gyda'r brenin. Mae hi'n trefnu gwledd arbennig gan wahodd Ahasferus a Haman. Yn y wledd hon mae hi'n ymbil ar y brenin i achub ei phobl rhag cael eu difa gan Haman. Mae'r brenin yn gwrando ar Esther gan arbed yr Iddewon. Yn y pen draw, mae Mordecai a'r Iddewon yn cael eu hanrhydeddu ac mae Haman yn cael ei grogi ar grocbren.



### Dim Duw?

Yr hyn sy'n drawiadol am hanes Esther yw nad yw Duw yn cael ei enwi unwaith yn y llyfr. Ond, er nad yw'n cael ei enwi'n uniongyrchol, mae'n amlwg o'r cyd-destun fod Duw ar waith y tu ôl i'r llenni yn trefnu popeth er lles ei bobl. Yn wir, roedd Esther yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Roedd Duw wedi trefnu mai Iddewes fyddai brenhines Persia pan roedd cynllwyn peryglus ar waith fyddai'n bygwth dyfodol yr Iddewon. Fel brenhines, roedd Esther yn yr union le yr oedd angen iddi fod i stopio'r cynllun hwn. Dyma pam fod Mordecai'n dweud wrth Esther: 'Pwy a ŵyr nad ar gyfer y fath amser â hwn y daethost i'r frenhiniaeth?' (Esther 4:14) Mae Esther yn sylwi fod Duw wedi ei gosod hi yn y lle iawn ar yr adeg iawn felly mae hi'n ymateb yn ddewr i'r hyn mae Mordecai yn ei ofyn ganddi: 'Dos i gasglu ynghyd yr holl Iddewon sy'n byw yn Susan, ac ymprydiwch drosof; peidiwch â bwyta nac yfed, ddydd na nos, am dridiau, ac fe wnaf finnau a'm morynion yr un fath. Yna af at y brenin, er fy mod yn torri'r gyfraith; ac os trengaf mi drengaf.' (Esther 4:16)

### Iesu Grist

Wrth gwrs, mae Esther yn gysgod ardderchog o'r Arglwydd Iesu. Trwy Esther, achubodd Duw ei bobl mewn ffordd annisgwyl a rhyfeddol. Trwy Iesu, mae Duw wedi achub ei bobl mewn ffordd drawiadol: trwy ei farwolaeth ar y groes dros ein pechodau a'i atgyfodiad ar y trydydd dydd. Yn wir, cadwodd Duw yr Iddewon yn ddiogel yn oes Esther gan mai trwyddyn nhw y byddai'n bendithio'r byd gyda'r Meseia.

Mae hanes Esther hefyd yn ein hatgoffa fod Duw yn goruwchlywodraethu dros ein bywydau ni. Efallai ein bod ni'n teimlo'n ddigalon heddiw; yn teimlo'n rhwystredig gyda'n bywydau; yn teimlo nad oes gan Dduw gynllun ar ein cyfer ni a'n dyfodol. Ond nid yw hyn yn wir! Mae Duw yn sofran dros bopeth. Mae'n goruwchlywodraethu y tu ôl i'r llenni er lles ei bobl. Mae'n sicrhau ein bod ni yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Am gysur eithriadol!

**Gwilym Tudur**

## Cofio

Draw tu hwnt i'w deall
Yw'r ddawn i gofio'n dwê.
A dyna heddi bywyd
A'i ragderfyniad e.

A beth f'ai fory'n hymdaith
Heb dwê, a'r hyn a fu?
Ni fydde dim i'w ddarpar
Na'i ddisgwyl ar fwrdd du.

Heb gof pwy fydde'n angof,
A'r Llan mor fud â'r llun.
A beth o werth f'ai enwau
Heb 'mod i'n 'nabod un!

Rhaid cofio i anghofio!
A chyd-gyffesu'r cam.
A phwy all gofio'r 'COFIO'
Ond plant y Crist di-nam.

Nod ucha'r cof yw diolch
Cyn iddynt bylu'n llwyr,
A'n gadael ar ryw benrhyn
Yn unig, a rhy hwyr!

**E. G. Jones.**

## Gasa


Dielw yw dialedd – a'r berw
Barbaraidd heb ddiwedd;
Oriau hyll ar erwau hedd
Yw Gasa pob atgasedd.

**E. G. Jones**

Yr Adran Gydenwadol

IONAWR 11 2024 RHIF 150

# Cofio cyfraniad arloesol Elisabeth James i'r Cyngor Ysgolion Sul




Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs Elisabeth James, Aberystwyth, ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Elisabeth oedd ein Llywydd Anrhydeddus fel Cyngor ers dros 25 mlynedd, a bu'n aelod gweithredol o'r Cyngor am dros 50 mlynedd, gan gamu i'r swydd y bu i'w phriod, Dan Lynn James, ei llenwi cyn hynny.

Bu Dan ac Elisabeth yn arloeswyr ym maes datblygu a chreu gwerslyfrau i blant ac ieuenctid ysgolion Sul Cymru, gan ysgrifennu a golygu cyfresi di-ri o lyfrau a gafodd eu defnyddio gan genedlaethau o blant. Cyhoeddwyd y gwerslyfrau cyntaf ganddynt ddechrau'r saithdegau, ac ar y pryd, gydag ysgolion Sul yn eu bri, roedd degau o filoedd o lyfrau yn cael eu hargraffu. Bu Elisabeth yn olygydd cyffredinol i gyfres gwerslyfrau Gyda'n Gilydd, a gyhoeddwyd ganol y nawdegau, a hyd yn oed bryd hynny argraffwyd 15,000 o lyfrau yn flynyddol. Tybed faint o blant Cymru a ddysgodd am storïau'r Beibl a'r hanes am Iesu trwy waith Elisabeth dros gyfnod o dros 30 mlynedd?


Bu Elisabeth hithau yn awdur, yn gyfieithydd ac yn olygydd ffyddlon i Gyhoeddiadau'r Gair am flynyddoedd wedi hynny, gan baratoi gwerslyfrau a nifer o Feiblau lliw a llyfrau darllen i blant. Yn nyddiau cynnar y wasg fyddai dim yn mynd at yr argraffwyr heb i Elisabeth sicrhau bod pob gair yn ei le, a'r testun oll yn ffyddlon i'r Beibl. Roedd ei brwdfrydedd a'i sêl dros waith y deyrnas bob amser yn heintus, a diolchwn am ei chyfraniad i fywyd ysbrydol ein cenedl. Gwnaeth ymdrech i geisio pontio ac uno pobl o draddodiadau, safbwyntiau ac ieithoedd gwahanol, gan roi Iesu yn y canol bob amser. Roedd yn weddïwraig ffyddlon a thriw, ac yn cofio am waith cynifer o fudiadau Cristnogol yn y gweddïau hynny.

Yn bersonol, mae gen i atgofion i'w trysori o dreulio amser ar yr aelwyd ym Mronallt wedi ymgolli ynghanol proflenni, wrth iddi gywiro a chynghori, a'r sgwrs bob amser yn fendithiol. Roedd croeso ar yr aelwyd bob amser, gyda chinio neu swper yn rhan o'r croeso hwnnw. Diolchwn i Dduw amdani, ac am ei ffydd gadarn a fu'n angor iddi gydol ei hoes.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Bethan, Gwenno, Dafydd a'r teulu oll yn eu hiraeth. Cynhelir ei hangladd yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, ddydd Sadwrn, 13 Ionawr, am 11.30 o'r gloch.

Ei dymuniad oedd bod unrhyw roddion er cof amdani yn mynd at waith y Cyngor Ysgolion Sul, a diolchwn am y cyfle i gydweithio â'r teulu i wireddu hynny. Byddwn yn rhannu dolen yn fuan lle gall pawb sy'n dymuno gyfrannu ar lein yn ogystal. Bydd cronfa yn cael ei sefydlu i wireddu project arbennig er cof am Elisabeth.

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru*






# ‘Câr yr Arglwydd dy Dduw … a châr dy gymydog fel ti dy hun’

## Thema Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol: 18–25 Ionawr

Yn ôl yr arfer mae’r wythnos Ionawr 18–25 wedi ei nodi fel Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol. Paratowyd y deunyddiau ar gyfer yr wythnos hon eleni gan dîm eciwmenaidd o Burkina Faso gyda chymorth y Gymuned Chemin Neuf leol. Y thema a ddewiswyd yw “Câr yr Arglwydd dy Dduw … a châr dy gymydog fel ti dy hun” (Luc 10:27). Mae’r deunyddiau i gyd ar gael yn Gymraeg am ddim o wefan CTBI: https://ctbi.org.uk/wp-content/uploads/2023/11/WPCU-2024-Welsh-English-pamphlet-for-web.pdf.pagespeed.ce.S6IaZ9kOR4.pdf

Rhan o ranbarth y Sahel yng Ngorllewin Affrica yw Burkina Faso, rhanbarth sy’n ymestyn i wledydd Mali a Niger gerllaw. Mae i’r wlad arwynebedd o 174,000 cilometr sgwâr a phoblogaeth o un filiwn ar hugain, sy’n cynnwys tua thrigain o grwpiau ethnig. Mae oddeutu 64% o’r boblogaeth yn Fwslimiaid, 9% yn ddilynwyr crefyddau Affricanaidd traddodiadol a 26% yn Gristnogion (20% yn Gatholigion a 6% yn Brotestaniaid). Mae aelodau o’r tri grŵp crefyddol hyn i’w canfod ym mhob rhan o’r wlad ac ymron ym mhob teulu.

Ar hyn o bryd mae Burkina Faso yn profi argyfwng diogelwch difrifol sy’n effeithio ar bob cymuned ffydd. Ar ôl ymosodiad jihadaidd enfawr a oedd yn deillio o’r tu allan i’r wlad yn 2016, dirywiodd y sefyllfa ddiogelwch yn Burkina Faso, ac o ganlyniad ei chydlyniant cymdeithasol, yn sylweddol. Mae’r wlad wedi dioddef cynnydd mewn ymosodiadau terfysgol, torcyfraith a masnachu pobl. Gadawodd hynny dros dair mil o bobl wedi marw a bron i ddwy filiwn o bobl wedi’u dadleoli o fewn y wlad. Mae miloedd o ysgolion, canolfannau iechyd a neuaddau trefi wedi cael eu cau, ac mae llawer o’r seilwaith economaidd-gymdeithasol a thrafnidiaeth wedi’i ddinistrio. Mae offeiriaid, gweinidogion a chatecyddion wedi cael eu lladd yn ystod gwasanaethau addoli ac ni wyddys beth fu tynged eraill a gafodd eu herwgipio. Ar adeg ysgrifennu hyn, mae dros 22% o diriogaeth y wlad y tu hwnt i reolaeth y wladwriaeth ac ni all Cristnogion arfer eu ffydd yn agored yn yr ardaloedd hynny bellach. Oherwydd gweithgareddau terfysgol, mae mwyafrif yr eglwysi Cristnogol yng ngogledd, dwyrain a

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2024

Dos, a gwna dithau yr un modd



gogledd-orllewin y wlad wedi cael eu cau. Nid oes bellach unrhyw addoli Cristnogol cyhoeddus mewn llawer o’r ardaloedd hyn, ond lle mae addoli yn parhau’n bosibl dan amddiffyniad yr heddlu, fel arfer mewn dinasoedd mawr, rhaid cwtogi ar hyd y gwasanaethau oherwydd pryderon diogelwch.

Bu’r gwahoddiad i gydweithio ar y testunau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2024 yn her i Eglwysi Burkina Faso gydgerdded, cydweddïo a chydweithio yn rhwymau cariad yn ystod y cyfnod anodd hwn ar gyfer eu gwlad. Mae cariad Crist, sy’n uno pawb o’i bobl, yn gryfach na’u rhwygiadau, ac mae Cristnogion Burkina Faso yn ymrwymo i gydgerdded llwybr cariad tuag at Dduw a chymydog. Mae ganddynt hyder y bydd cariad Duw yn goresgyn y trais sydd heddiw’n gormesu eu gwlad.

Meddai Dr Nicola Brady, Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon:

‘Mae dameg y Samariad Trugarog yn un o’r darnau mwyaf adnabyddus yn yr Ysgrythur, ond eto nid yw’n ymddangos ei bod byth yn colli ei grym i herio difaterwch yn wyneb dioddefaint ac i ysbrydoli cydsefyll â’r rhai sy’n dioddef. Mae’n stori am groesi ffiniau sy’n hoelio ein sylw ar y rhwymau sy’n uno’r ddynoliaeth gyfan.

‘Wrth ddewis y darn hwn o’r Ysgrythur ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, mae eglwysi Burkina Faso wedi ein gwahodd i ymuno â nhw mewn proses o hunanfyfyrio wrth iddynt ystyried beth mae’n ei olygu i garu ein cymydog yng nghanol argyfwng diogelwch. Er bod cymunedau ym Mhrydain ac Iwerddon mewn llai o berygl oddi wrth weithredoedd o drais torfol nag yw cymunedau Burkina Faso, eto mae llawer yma’n parhau i fyw gydag atgofion o drais difrifol a llawer yn profi bygwth hynny yng nghyd-destun hunaniaeth a pherthyn. Mae hefyd grwpiau o fewn cymunedau, gan gynnwys pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig a phobl sy’n ceisio lloches, sy’n teimlo’n arbennig o agored i drais neu gael eu dadleoli dan fygythiad trais.


‘Mae ein cymdogion yn Burkina Faso yn ein galw i gofleidio o’r newydd freuddwyd Duw ar ein cyfer – breuddwyd o undod ar sail rhwymau cariad a thosturi. Mae hyn yn ein herio nid yn unig i fyfyrio ar yr hyn rydym wedi ei ddysgu ar ein taith eciwmenaidd hyd yma, ond hefyd i ehangu ein gweledigaeth. Beth allwn ni ei ddysgu gan bobl o grefyddau eraill, gan y rhai sydd o gefndiroedd gwahanol iawn i ni, a beth sydd ei angen arnom oddi wrth ein gilydd?

‘Mae’r myfyrdodau yn ein hannog i ystyried safbwynt nid yn unig yr un a drugarhaodd, ond hefyd y rhai a aeth heibio ar yr ochr draw. Ni fydd llawer ohonom wedi bod yn ymwybodol o’r bygythiad sy’n wynebu cymunedau yn Burkina Faso cyn darllen y deunyddiau hyn. Mae’n ein hatgoffa mewn modd grymus am y gwrthdaro sy’n digwydd ledled y byd, y mae llawer ohono wedi ei esgeuluso ond sy’n parhau i ddinistrio bywydau a difetha cymunedau. Prin yw’r sefyllfaoedd sy’n gallu ennyn sylw cyfryngau’r byd, a phrinnach fyth yw’r rhai sy’n gallu cadw’r sylw hwnnw. Galwyd yr Eglwys i fod yn eiriolwr dros y rhai a ddaliwyd yn y gwrthdrawiadau anghofiedig hyn, ac i sicrhau y clywir lleisiau’r rhai sy’n teimlo’n wrthodedig.

‘Yn ystod yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, mae’r Eglwys yn cael ei herio i aros gyda’r clwyfedig a’u hymgeleddu ac, wrth wneud hynny, gydnabod ein clwyfau ni ein hunain fel eglwysi ac fel cymunedau. Mae wynebu gwirionedd ein natur doredig ni ein hunain o gymorth i ni gydsefyll â’r rhai sy’n dioddef, yn ostyngedig a chyda dyfnder empathi, a’n cydgyfarfod wedi ei gysegru a’i ysbrydoli gan gariad iachusol Crist.’

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 16**
**Helpu plant**
**Sul, 14 Ionawr**

**Am Bennod 15, gweler Cenn@d, 149 (3 Ionawr 2024)**

### Gweddi
Nefol Dad, rwy'n troi atat o'r newydd heddiw ac yn gofyn am dy gwmni. Helpa fi i sylweddoli fy mod yn perthyn i'th deulu ac yn cael y fraint o'th alw yn Dad Nefol. Amen.

### Darlleniad: Marc 10: 13–16
'Gadewch i'r plant ddod ataf fi.' (adn. 14)

### Cyflwyniad
Byddwn yn gyfarwydd â'r darlleniad yn Efengyl Marc sy'n nodi bod Iesu yn hapus i weld plant yn ei ymyl. Hyd at yn gymharol ddiweddar, byddai sawl diwylliant yn disgwyl bod teuluoedd yn magu llawer o blant, ac mewn oes heb ddulliau atal cenhedlu, byddai nifer sylweddol o blant ar bob aelwyd. Prin fod llawer o ofid am iechyd y fam, nac am iechyd y plant o ran hynny. Yr un fyddai'r hanes yn y cyfnodau Beiblaidd, a byddai plant yn gyfarwydd â gwaith diflas a chaled, yn bugeilio defaid neu gario manion bethau. Mewn unrhyw ganolfan bentrefol byddai plant yn rhan o brysurdeb a sŵn yr ardal. Ymateb digon cyffredin fyddai i'r pregethwr teithiol gael plant yn casglu o'i gwmpas ac yn hawlio sylw. Pa ryfedd i'r disgyblion eu cymell i fynd i ffwrdd, a hynny'n gwbl ddiseremoni. Roedd cymhelliad Iesu i gadw'r plant wrth ei draed yn nodweddiadol ohono. Torrodd gonfensiwn y cyfnod a derbyn plant yn llawen.

### Myfyrdod
Mae'r dywediad Saesneg 'Children should be seen and not heard' yn un digon cyfarwydd. Bu'r syniad hwn yn gyffredin ar hyd y canrifoedd ac ar draws y diwylliannau. Roedd cymaint ohonynt fel nad oedd modd eu cadw dan reolaeth heb orchymyn tawelwch. Profiad cymharol ddiweddar yw gweld aelwydydd gyda darpariaeth i ddiddanu ac addysgu plant. Cyn yr Ail Ryfel Byd, prin oedd gweld llyfrau na theganau addysgol i blant. Byddai haenau tlotaf y gymdeithas yn chwilio am rywbeth i'r plant ei wneud a fyddai'n dod ag incwm i'r aelwyd. Clywsom lawer am bwysigrwydd rhoi addysg i blant yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, ond cyn hynny byddai plant yn gweithio dan ddaear neu mewn ffatrïoedd, yn y caeau ac yn gwasanaethu.

Prin oedd y ddarpariaeth i blant mewn ysgolion ac eglwysi, a rhoddwyd bri ar waith yr ysgolion Sul. Dengys ystadegau'r eglwysi fod y niferoedd wedi dechrau gostwng erbyn diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, ac er i'r dirywiad gymryd degawdau i weld ysgolion Sul yn cau yn llwyr, dyna sydd wedi digwydd bellach.

Erbyn hyn, mae angen i eglwysi chwilio am gynlluniau gwahanol i ddal sylw'r ifanc ac i rannu stori a geiriau Iesu mewn ffordd ddeniadol a dychmygus. Diolch i Gyngor Ysgolion Sul Cymru, ceir adnoddau niferus – yn llyfrau print a deunydd sydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol. Bydd ambell eglwys yn trefnu clybiau plant gydag eglwysi eraill, a hynny ar noson waith, gan fod mudiadau seciwlar yn cynnig gweithgareddau i'r plant a'r bobl ifanc na all yr eglwysi gystadlu â hwy. Ceir cymdeithas o glybiau yn sir Gaerfyrddin yn cydweithio i gyflogi swyddog datblygu ac, yn y gogledd yn benodol, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi llwyddo i hyfforddi a chyflogi arweinwyr i'r ifanc i gydweithio ag eglwysi. Erbyn hyn, ceir darpariaeth gyffelyb mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Dathlwn eu mentergarwch a'u brwdfrydedd. Diolchwn am bob ymdrech i rannu geiriau Iesu â phlant ac am y modd y bydd eglwysi yn trefnu i'w haelodau fynd yn gyson i ysgolion a chyfrannu at raglen Agor y Llyfr.

### Gweddi
Gweddïwn, Arglwydd, dros lwyddiant pob ymdrech i helpu plant a phobl ifanc i weld bod geiriau Iesu yn berthnasol yn eu twf fel pobl a bod addysg dda o bob math yn bwysig i'w datblygiad. Ysgoga wirfoddolwyr i'r cynllun Agor y Llyfr ym mhob ardal, a boed i'r athrawon a'r disgyblion eu croesawu. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried
1. Beth oedd agwedd yr Iddewon at blant yn gyffredinol yng nghyfnod gweinidogaeth Iesu?
2. Cadw'r plant draw oedd meddylfryd y disgyblion, a hynny er mwyn rhoi lle a llonydd i Iesu. Ai dyna oedd meddylfryd eglwysi Cymru dros y ganrif ddiwethaf?
3. Beth garech chi ei ddweud wrth blant am Iesu?
4. O feddwl am y plant rydych yn eu hadnabod, sut byddwch chi'n siarad am Iesu: fel eich ffrind neu fel cymeriad hanesyddol?
5. Plant yw'r grŵp cyntaf i ddioddef mewn sefyllfaoedd o newyn, rhyfel, tlodi a dirwasgiad. Pam?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 14 Ionawr, am 7.30yh**
Bydd Lisa Gwilym yn ymweld â sir Fflint a Wrecsam i ddysgu mwy am yr emynau sy'n ysbrydoli dau o Gymry amlwg y gogledd-ddwyrain – y Barnwr Nic Parry a'r gweinidog Aled Lewis Evans, cyfranwyr i'r gyfrol *Hoff Emynau'r Cymry*. A chawn berfformiad swynol gan y gantores Ffion Emyr.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 14 Ionawr, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Allan Pickard, Caerdydd

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 14 Ionawr, am 12yp**
Oedfa dan ofal Beti Griffiths, Lledrod

# *Y Cwmni Bach*, podlediad yr Undeb

Ar ddechrau blwyddyn newydd fel hyn, mae gennym ni westai newydd i chi ar bodlediad *Y Cwmni Bach*, rhywbeth i roi hwb mewn i'r flwyddyn i chi.

Efallai nad ydych chi wedi clywed am Sheridan Angharad James hyd yn hyn, ond mi wnewch gydag amser. Penodwyd Angharad yn Ganon Bugeiliol y Plwyf a Phererinion yng Nghadeirlan Tyddewi ers tua blwyddyn ac mae ganddi stori hynod ddiddorol i'w hadrodd am sut y cymerodd llwybr ei bywyd hi i'r fan honno, ac am ei ffydd.

Magwyd Angharad yng Nghaerdydd ar aelwyd ddwyieithog, fywiog. Cewch glywed yr hanes am sut y daeth hi, a gweddill ei theulu'n Gristnogion, yn ogystal â throeon diddorol ei gyrfa a hynny yng nghwmni person cynnes, agored a doniol.

Y mae podlediadau misol *Y Cwmni Bach* gan yr Undeb wedi bod yn mynd rhagddynt ers dros flwyddyn bellach, mae'n rhan o genhadaeth ddigidol MSP4 yr Undeb a noddir gan CWM.

### Penodau blaenorol

Mae'r penodau blaenorol yn cynnwys sgyrsiau difyr gyda phobl fel Jeff Williams, darpar lywydd yr Undeb a roddodd gipolwg ar y bobl a'i gwnaeth, ar y profiadau ffurfiannol a thrawsnewidiol fu yn ei fywyd, ac ar ei ffydd; Nel Richards, myfyrwraig sydd â'i bryd ar ddod yn newyddiadurwraig amgylcheddol am ei bod hi'n credu mai dim ond un pwnc sy'n bwysig yn ein dyddiau ni, sef yr amgylchedd; Laura Karadog sy'n Grynwraig ac yn athrawes ioga, sy'n rhannu hanes ei bywyd a sut gall elfennau o ddiwylliannau a chrefyddau eraill fod o gymorth i ni yn ein bywydau; a Siôn Brynach, prif weithredwr Cytûn sy'n codi cwr y llen ar ei yrfa hynod amrywiol, am ei fywyd teuluol ac am ei Gristnogaeth mewn modd ffraeth a gonest.

### Gwylio a gwrando

Mae'r podlediadau ar gael i'w gwylio ar wefan yr Undeb, neu i wrando arnynt – maent ar gael ar blatfformau Spotify, Apple ac YouTube hefyd. Sgyrsiau hamddenol a hwyliog ydynt gyda gwesteion amrywiol o bob cwr o Gymru, sy'n trafod eu bywydau, eu profiadau, eu ffydd, a phob mathau o bethau eraill hefyd. Does dim un o'r penodau yr un peth a phob un yn werth eu clywed neu eu gwylio, oherwydd y mae gan bawb ei stori.

Mae'r podlediadau hyn yn ffordd i ni rannu ein straeon gyda'n gilydd, i drafod y pethau sy'n bwysig i ni heddiw. Ac wrth gwrs, mi fedrwch chithau barhau â'r sgwrs ymhlith eich gilydd, mae'n bwysig ein bod ni'n siarad, yn tystiolaethu, ac yn rhannu'n profiadau ni.

Daw mwy o westeion i'r *Cwmni Bach* dros y flwyddyn hon, ymunwch gyda ni yn y sgwrs.




# Dathlu ordeinio saith gweinidog

Ordeiniodd y Prifathro Dr Pennar Davies saith o fyfyrwyr Coleg Coffa Abertawe yn weinidogion a hynny yn 1963. Golyga hynny y bu 2023 yn flwyddyn o ddathlu 60 mlynedd yn y weinidogaeth. Yr oeddwn i yn bresennol ymhob un o'r cyfarfodydd.

### Pedwar

Un o fechgyn Y Tymbl oedd Meirion Sewell a godwyd i'r weinidogaeth ym Methesda ac fe'i hordeiniwyd yn Seion Myddfai a Bwlchyrhiw. Roedd Walford Jones yn frodor o Gwm Gwendraeth ac fe gafodd ef ei ordeinio yn Ebeneser, Brynaman. Brodor o Frynaman oedd Meurwyn Williams a'r cyntaf o bedwar myfyriwr o'r Coleg Coffa a aeth i Feirionnydd. Ordeiniwyd Meurwyn yn Ebeneser, Trawsfynydd, Penstryd a Jerwsalem. Codwyd Nennog Thomas yn Nhroedyrhiw, Alltwalis ac fe'i hordeiniwyd yn Moreia, Rhymni. Mae gennym atgofion hyfryd am y pedwar a diolch am eu hymgysegriad llwyr i waith y weinidogaeth.

### Tri

Ordeiniwyd tri arall sef John Gwilym Jones, D. Gerald Jones ac Allan Wilcocks. Codwyd John fel ei ddau frawd Jim ac Aled yn Ebeneser, Castellnewydd Emlyn a'i ordeinio ym Methania, Tymbl Uchaf a Gerald Jones o Horeb, Llandysul (y ddau ymhlith y nifer a godwyd i'r weinidogaeth o ysgol ramadeg Llandysul) yn Noddfa, Pont-iets a Bethel, Carwe er mai yn Nasareth yr oedd yr oedfa ordeinio. Brodor o Gasllwchwr yw Allan Willcocks a fagwyd yn Horeb a'i ordeinio gyda'r Annibynwyr Saesneg yn Seion, Llanidloes ac eglwys Glanhafren oedd yn perthyn i ni fel Annibynwyr.

Byddai'r saith yn gwerthfawrogi dylanwad prifathro ac athrawon y Coleg Coffa ac mae'n drist gweld yr adeilad braf yn adfail bellach.


Rydym yn gweddïo y bydd Duw eto yng Nghymru yn galw unigolion i fod yn weinidogion arweinwyr a phregethwyr cynorthwyol oherwydd bod y cynhaeaf yn fawr a'r gweithwyr yn anaml.

**Gareth Morgan Jones**

# Golygyddol

## Mr Bates a'r Swyddfa Bost

Anaml iawn y byddai'n crio wrth wylio rhaglenni ar y teledu ond rhaid i mi gyfaddef bod gwylio drama ddogfen *Mr Bates v. The Post Office* wedi bod yn brofiad braidd yn emosiynol. Fwy nac unwaith yn ystod y pedair rhaglen a ddarlledwyd gan ITV roedd dagrau yn agos i'r wyneb.




Rwy'n siŵr fod pawb ohonoch, erbyn hyn, yn gwybod y cefndir i'r gyfres hon sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau go iawn yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf. Hanes ydyw am nifer o is-bostfeistri yn cael eu cyhuddo ar gam o dwyll ariannol. Roeddent yn gyfan gwbl ddiniwed ond fe erlynodd y Swyddfa Bost hwy yn llym fel eu bod wedi colli eu henw da, eu gyrfa, eu tai a'u cynilion. Carcharwyd rhai a bu i eraill ohonynt gyflawni hunanladdiad. Yr hyn a ddigwyddodd oedd eu bod yn defnyddio rhaglen gyfrifiadurol ddiffygiol o'r enw Horizons. Ar derfyn dydd/wythnos roeddent yn tafoli eu cyfrifon ariannol gan osod y manylion yn y system gyfrifiadurol. Ond dro ar ôl tro roedd y system yn dweud wrthynt eu bod mewn dyled ac roedd y ddyled honno yn cynyddu'n raddol i fod yn filoedd ar filoedd o bunnoedd. Roeddent yn ffonio llinell gymorth Horizons ac roedd yr ymgynghorwyr yn dweud wrth bob unigolyn a gysylltai, 'Rhyfedd, chi yw'r unig un sy'n cael y broblem hon.' A oedd wrth gwrs yn gelwydd noeth gan ein bod yn dod i wybod yn ystod y gyfres fod cannoedd o is-bosfeistri yn yr un cwch. Fe gymerodd uwch-swyddogion y Swyddfa Bost yn ganiataol fod yr is-bostfeistri hyn i gyd yn euog o ddwyn arian. Nid oeddent yn fodlon ystyried am eiliad y gallai system gyfrifiadurol fod yn wallus neu fod gweithwyr cyfrifiadurol yn newid symiau ariannol yn ddiarwybod i eraill. Hefyd, roedd cymal ym mhrint mân eu cytundebau yn dweud mai'r postfeistri yn bersonol oedd yn gyfrifol am dalu unrhyw golled a wnaed ganddynt. Wedi iddo gael llond bol, fe ddechreuodd Alan Bates a fu'n bostfeistr yn Llandudno ar ymgyrch i geisio cyfiawnder a dyma mewn gwirionedd yw sail y gyfres. Ymgyrch sydd yn parhau hyd heddiw.

### Dioddefaint y diniwed

Un rheswm pam bod y ddrama ddogfen hon mor bwerus yw'r elfen o ddioddefaint y diniwed. Gwelwn bobl gyffredin yn byw eu bywydau gan geisio cadw dau ben llinyn yng nghyd. Nid oeddent yn twyllo, ond eto roedd y sefydliad yr oeddent yn rhan ohono a'r bobl oedd yn rhedeg y Swyddfa Bost yn troi clust fyddar i'w cwynion. Roeddent yn gaeth i'r system ac yn analluog i newid y sefyllfa. Fe'u cosbwyd ar gam a hwythau yn gwbl ddiniwed. Mae hyn yn digwydd ar hyd a lled y byd mewn cyd-destunau amrywiol. Yn rhyfeloedd Israel-Palesteina, Rwsia-Wcráin, y diniwed sy'n dioddef. Yn y sefyllfaoedd trist sydd wedi datblygu yn Yemen, Swdan ac Affganistan mae'r diniwed yn dioddef, nid oherwydd unrhyw ddrwg y maent wedi ei gyflawni ond oherwydd agwedd y rhai sydd mewn awdurdod a grym. Dim rhyfedd fod y proffwyd Amos wedi taranu yn erbyn anfoes arweinyddion Israel yn erbyn y tlawd a'r diniwed gan ddweud:

> Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD: 'Am dri o droseddau Israel, ac am bedwar, ni throf y gosb yn ôl; am iddynt werthu'r cyfiawn am arian a'r anghenog am bâr o sandalau; am eu bod yn sathru pen y tlawd i'r llwch ac yn ystumio ffordd y gorthrymedig.' (Amos 2:6–7)

Cyfrifoldeb cymdeithas wâr ym mhob oes yw amddiffyn y diniwed a'r dieuog fel nad ydynt yn cael eu cyhuddo ar gam a'u cam-drin ond yn gallu byw eu bywydau gydag adnoddau digonol ac mewn heddwch.

### Sefydliadau mawr

Yr ail beth a'm trawodd wrth wylio'r gyfres oedd yr angen i fod ar ein gwyliadwriaeth rhag sefydliadau mawr, cyfoethog a phwerus. Y mae'n rhwydd i sefydliadau grymus i droi yn llwgr gan edrych ar ôl eu buddiannau hwy eu hunain a hynny ar draul hawliau sefydliadau llai ac yn enwedig unigolion di-rym. Gallant golli golwg yn rhwydd ar beth sy'n deg, onest a chywir, gan fynd i gredu mai nod amgen eu bodolaeth yw peri llwyddiant ac elw i'w sefydliad. Gwelwn hyn yn digwydd mewn cymaint o feysydd erbyn hyn. Yn y cylchoedd gwleidyddol, yn y byd economaidd, mewn sefydliadau mawr crefyddol yn cynnwys rhai Cristnogol. Ac mewn cyfnod lle mae cymaint o sefydliadau a chwmnïau enfawr a byd eang yn datblygu byddwn yn sicr yn gweld llawer mwy o hyn.
Pan welwn y diniwed yn cael eu sathru gan y grymus a'u lleisiau'n cael eu hanwybyddu, ein cyfrifoldeb ni fel Cristnogion yw sefyll o'u plaid gan ddadlau eu hachos. 'Taro'r **post** i'r fuwch gael clywed.'

**Alun Tudur**

## PROSIECT DENMAN 2024

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema:

### Ein hysgol Sul: 'Dysgu am Iesu.'

Roedd Iesu'n dysgu'r bobl am Dduw drwy gyfrwng damhegion. Sut ydych chi'n dysgu am Iesu Grist a'i neges?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru a'r cynnyrch celf at Elinor yn Nhŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ erbyn dydd Iau, 13 Mehefin 2024.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Nantgarw ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Capel Libanus, y Pwll: Dathlu 90 oed – *parhad*



*Deryth a'r banc bwyd Nadoligaidd*

### Gweu a chrosio i godi arian

Mae tlodi mawr yn ardal Llanelli ac mae'r aelodau'n teimlo ei bod yn bwysig cefnogi gwaith un o'r pum banc bwyd sydd yn y dref sef Banc Myrtle House. Diolch arbennig i Elizabeth Thomas am weu a chrosio dwsinau o deganau ac addurniadau Nadolig i'w gwerthu er budd yr achos. Roedd y doreth o anrhegion a brynwyd gyda'r arian yn ychwanegol at ein casgliad bwyd misol arferol. Diolch i Deryth Davies am gydlynu'r cyfan.



**Linda Sidgwick, Ysgrifennydd**

# Open Doors

## Addysg yn helpu i leihau erledigaeth yn Ethiopia



Yn yr ardal o Ethiopia lle mae eglwys y Parchedig Yohannes, y mae llawer o erledigaeth tuag at Gristnogion. Pan fydd rhywun yn cefnu ar grefydd arall er mwyn dilyn Iesu Grist yn aml daw bygythiadau brawychus.

Yn ystod cyfnod y Nadolig 2022, pan oedd Cristnogion yn dathlu geni Crist, anfonwyd eithafwyr Islamaidd yn unswydd i amharu ar y gwasanaeth gan daflu cerrig at yr eglwys. Oni bai am amddiffyniad Duw, gallai'r plant oedd yn chwarae y tu allan fod wedi eu hanafu'n ddifrifol neu hyd yn oed eu lladd pe bai'r cerrig wedi eu taro.

Mae plant Cristnogol yn yr ardal hefyd yn profi rhagfarn yn yr ysgol. Hyd yn oed os yw plant ymhlith y disgyblion gorau ac wedi gwneud yn dda, dydyn nhw ddim yn derbyn y marciau maen nhw'n eu haeddu ac mae eu sgoriau prawf yn cael eu gostwng.

Gyda chefnogaeth Open Doors, mae'r eglwys wedi sefydlu ysgol gynradd o fewn tir yr eglwys sydd ar agor, nid yn unig i blant Cristnogol, ond i rai o grefyddau eraill hefyd. Roedd llawer o rieni Mwslimaidd yn hapus i anfon eu plant i'r ysgol hon oherwydd ansawdd yr addysg. Mae hon wedi dod yn bont rhwng yr eglwys a'r gymuned.

Dywed y Parchedig Yohannes, 'Pe na bai'r ysgol yn yr ardal, byddai'r casineb wedi parhau. Mae'r teuluoedd oedd yn arfer taflu cerrig at yr eglwys bellach wedi dechrau anfon eu plant i'r ysgol. Mae ganddyn nhw ymdeimlad o berthyn. Mae'r bobl oedd yn arfer edrych i lawr arnom bellach yn ein cyfarch ar y strydoedd ac mae hynny'n fy ngwneud i'n hapus.'

'Oherwydd bod yr ysgol o fewn yr eglwys,' meddai Ermias*, tad i efeilliaid sy'n mynychu'r ysgol, 'maen nhw'n gweld cariad. Maen nhw'n gweld Crist.'

Gweddïwn:

- Diolch i Dduw am effaith yr ysgol, wrth ddod â Christnogion a Mwslemiaid yn agosach at ei gilydd a rhoi addysg decach i blant Cristnogol lleol.
- Cofiwch y rhai yn Ethiopia a fydd mewn perygl o erledigaeth, ynysu a hyd yn oed trais oherwydd eu penderfyniad i ddilyn Crist.

* *Newidiwyd yr enw*

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*